

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 11 Mawrth, 2021 am 19.00

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Lowri Evans

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Geraint Hughes.

Croeso arbennig i Cyng. Lowri Evans a gafodd ei gyf-ethol i'r sedd wag yn ward Llanllechid Isaf yn y cyfarfod diwethaf.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Dafydd K Jones a Kevin Williams.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror, 2021.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Y Cyng. Jên Morris a'r Clerc i cysylltu hefor' swyddog llwybrau i gael diweddariad.

Wal Maes y Groes – Y gwaith atgyweirio wedi gael ei gwblhau.

Ysbwriel Parc Main – bagiau ysbwriel wedi cael ei clirio, ond nid yw'r ysbwriel tu ôl i'r wal wedi gael ei casglu.

Tai'n Lon – y contractwr wedi gorfod newid trefniadau ychydig er mwyn osgoi peipen Dwr Cymru. Disgwyl cadarnhad o raglen diwygiedig y contractwr, sy'n ddibynol ar argaeledd deunyddiau penodol.

Terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes – Llawer o gwynion wedi'i dderbyn gan ffermwyr lleol, y Clerc i holi Stad Penrhyn os oes modd gael ffens dros dro yma hyd nes fydd y tenant yn ail godi'r wal.

Paragleidio ar Moel Wnion – Gethin Evans o'r ymddiriedolaeth wedi gael rhif cyswllt i Cyng. Kevin Williams. Y Cyng. Kevin Williams i ddiweddar'u'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

Prosiect i Bartneriaeth Ogwen – y Clerc i holi Meleri Davies am ddiweddariad. Y Cadeirydd i holi yn y cyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Partneriaeth Ogwen.

Beicio yng Nghoedwig Ty'n Hendre – Adroddwyd fod yr heddlu wedi bod yn ymweld a'r safle ar penwythnosau. Nodwyd Cyng. Alun Thomas fod yr coed ar y safle yn gael ei torri ym mis Mehefin, ag efallai bydd hyn yn helpu'r sefyllfa.

Top Allt Ty'n Hendre - ysbwriel ar ffordd allt Ty'n Hendre wedi gael ei clirio.

Twll yn y ffordd ger y Wern – y twll wedi gael ei lenwi, ond mae dŵr dal i barhau i lifo i lawr, a mae'r ffordd yn beryglus iawn yn ystod cyfnodau o eira a rhew. Cyng. Megan Tomos i godi'r mater gyda Cyng. Dafydd Meurig.

Mynediad i'r Mynydd ger Caellawngrydd – fan yn parcio ger y giat unwaith eto, y Clerc wedi hysbysu'r heddlu.

5. Taliadau

Dim.

6. Lwfans Blynyddol

Pawb wedi derbyn ffurflenni ar gyfer y lwfans blynyddol – ffurflen TWE neu'r ffurflen 'optio allan'. Fydd yr lwfans yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, drwy system TWE.

7. Cae chwarae Tal y Bont

Gardd Cymunedol – Penderfynwyd defnyddio'r arian grant i rhoid gardd bach cymunedol yn y cae chwarae. Y Clerc i gysylltu gyda Huw Davies ynglyn a trefniadau, ac hefyd i holi os oes modd tynnu'r gymuned i fewn ac y plant lleol drwy Ysgol Llandygai.

Datblygu Cae Pel-droed – Y Clerc wedi derbyn 3 dyfynbris gan dylunwyr graffeg lleol. Penderfynwyd y bydd Cyng. Evan Jones a'r Clerc yn mynd ymlaen i gael cynllun 3D gan Broc Designs. Y cynllun i gael ei gynnwys ar daflen ymgynghori a fydd yn cael ei gylchredeg i'r preswylwyr. Cyng. Alun Thomas i holi Stad Penrhyn os oes gennyn nhw ddiddordeb mewn ariannu ychydig o'r prosiect.

8. Y Mynydd

Nid oedd yn bosib gael cyfarfod o'r is-bwyllgor gyda'r bugail. Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng. Wyn Bowen Harris ar faterion ar y mynydd.

9. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Cylch yr Iaith – Datblygiad arfaethedig ar dir gyferbyn a Maes Bleddyn – y Clerc i ddatgan fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi mewn egwyddor ac ei fod yn bwysig fod y datblygiad yn ymateb i gofynion lleol.

Cyflwynwyd (Er gwybodaeth)– Eboest Howard Huws – Nodwyd fod y Cyngor yn cefnogi ymgyrch Cylch yr Iaith yn erbyn y cais ac yn argymhell i UNESCO na ddylid ei ganiatáu hyd nes y gall Llywodraeth Llundain, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd amlinellu'r camau pendant a weithredir ganddynt i rwystro'r cynnydd gor-dwristiaeth sydd ymhlyg yn y dynodiad.

10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Gweithdy Ymgynghori a Chymunedol – Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth

Gynaliadwy Yr Wyddfa ac Ogwen – Cyng. Jên Morris wedi mynychu'r gweithdy i gael trafodaeth cychwynnol ynglyn a newidiadau i trefniadau parcio a gwella'r rhwydwaith.

Cysylltiad Fibreoptig– Nodwyd y Cyng. Megan Tomos ei bod wedi cysylltu gyda Hywel Williams AS ynglyn a'r darpariaeth fratiog iawn yn ardal Llanllechid – dim ymateb hyd yn hyn.

Mynediad i Ysgol Llanllechid – Cyng. Geraint Hughes wedi trefnu cyfarfod rhwng 'Adra', Cyngorwyr Sir, Cyngor Cymuned Llanllechid a Bethesda – i gael trafodaeth cychwynnol ynglyn a'r problemau presennol. Mae'r sefyllfa ar hyn o bryd yn beryglus gyda lefel uchel o draffig yn mynd i fewn ac allan o'r ysgol drwy Maes Bleddyn.

11. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0154/21/CC

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

Penderfyniad: Ar y gweill.

C19/0950/21/LL

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

C20/0958/21/DT

Tan Lon Cottage, Ffordd Aber, Talybont

Codi estyniadau ffenestri cromen yn edrychiad blaen yr eiddo ynghyd a chreu llecyn parcio preifat o fewn y cwrtil.

Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau.

C21/0008/21/DT

27 Bro Emrys, Talybont

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ochr ynghyd ac estyniadau unllawr to un codiad i flaen a chefn yr eiddo

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0078/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0099/21/CC

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

Penderfyniad: Ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

NP3/21/28D

Bronydd Uchaf, Llanllechid

Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys storfa slyri tan ddaearol

Penderfyniad: Dim sylw.

NP3/21/42C

Marlow, Llanllechid

Cladio cerrig i edrychiad blaen yr eiddo.

Penderfyniad: Cefnogi.

12. Materion Brys

Dim.